

CYLCHLYTHYR

Cyllido Prosiectau mewn Sefydliadau Addysg Bellach o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dyddiad: 9 Mehefin 2015

Cyfeirnod: 10/14

At: Colegau Cymru; Penaethiaid sefydliadau addysg bellach Cymru;
Cydlynwyr Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg sefydliadol; Hyrwyddwyr
Dwyieithrwydd sefydliadau addysg bellach

Ymateb Erbyn: 3 Gorffennaf 2015

Cyswllt: Rhian A. Davies

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/cyhoeddiadau/cylchlythyron/>

Cefndir

1. Mae'r Cylchlythyr hwn yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grantiau sy'n ymwneud â'r sector addysg bellach o Gronfa Datblygiadau Strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [y Coleg].
2. Mae gan y Coleg Gronfa Datblygiadau Strategol [y Gronfa] ar gyfer prosiectau strategol ac mae dyfarniadau o'r Gronfa honno yn cael eu penderfynu o leiaf unwaith y flwyddyn.
3. Ers sefydlu partneriaeth rhwng Colegau Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2013, mae cyfran o'r Gronfa wedi'i neilltuo ar gyfer cefnogi prosiectau ym maes addysg bellach.
4. Bwriad y bartneriaeth yw (i) cynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach, a (ii) ysgogi dilyniant mewn meysydd pwnc perthnasol rhwng y sectorau addysg bellach ac addysg uwch.
5. Yn dilyn cyllido pum prosiect peilot yn 2013/14 a 2014/15, mae'r cylchlythyr hwn yn gwahodd ceisiadau am grantiau prosiect pellach i'w dyfarnu ym mis Gorffennaf 2015.

Meini Prawf

6. Bydd pob cais yn cael eu hystyried yn unol â'r pwyntiau meini prawf isod:
 - nifer y myfyrwyr sy'n elwa;
 - cynyddu darpariaeth addysg uwch mewn addysg bellach
 - potensial i ddenu myfyrwyr addysg bellach i astudio addysg uwch a chynyddu darpariaeth/dilyniant rhwng addysg bellach ac addysg uwch.
 - perthnasedd i gynlluniau academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
 - potensial i ddatblygu adnoddau fydd o ddefnydd i'r sectorau addysg bellach ac addysg uwch fel ei gilydd.

Ceisiadau

7. Gwahoddir ceisiadau gan sefydliadau addysg bellach ar y ffurf a ddynodir yn

Atodiad A.

8. Nid oes cyfyngiad ar nifer y ceisiadau y gall sefydliadau unigol eu cynnig ond dylid ystyried yn ofalus cyn cyflwyno mwy na dau gais.
9. Gall sefydliadau cyflwyno ceisiadau ar y cyd, hynny yw, gydag elfen gydweithredol llawn gan ddau neu fwy o sefydliadau.
10. Bydd Panel Grantiau'r Coleg yn ystyried y prosiectau arfaethedig ac yn gwneud argymhellion penodol mewn perthynas â phob cais a gyflwynir. Gall y panel:
 - Argymhell comisiynu'r prosiect
 - Argymhell gwaith pellach cyn penderfynu a ddylid comisiynu'r prosiect neu beidio
 - Argymhell na ddylid cefnogi'r cais.
11. Cyhoeddir y penderfyniadau ar ddyraniadau o'r cylch hwn o geisiadau drwy gylchlythyr.
12. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **hanner dydd ar 3 Gorffennaf, 2015**. Dylid anfon copi electronig o'r cais i rh.davies@colegcymraeg.ac.uk a chopi caled at:

Rhian A. Davies
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ
13. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir wedi'r dyddiad hwn yn gymwys, ac ni fydd modd addasu neu ddiwygio ceisiadau wedi'r dyddiad hwn. Cydnabyddir fod yr amserlen hon yn dynn ond dymuna'r Coleg weithredu ar y ceisiadau hyn cyn 31 Gorffennaf 2015.



Gofynion eraill

14. Bydd unrhyw adnoddau a ddatblygir ar ôl derbyn cyllid drwy'r Gronfa yn cael eu gosod ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg, e.e. Y Porth, Y Llyfrgell Adnoddau, Yr Esboniadur a/neu safle iTunes U y Coleg (oni nodir yn wahanol yn y cais grant).

15. Gellir cysylltu â Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth y Coleg (Owain Huw o.huw@colegcymraeg.ac.uk) os am wybodaeth bellach ynglŷn â datblygu adnodd/cyhoeddiad ar ffurf briodol sy'n addas ar gyfer llwyfannau e-ddysgu.
16. Trwyddedir adnoddau/cyhoeddiadau ar lwyfannau e-ddysgu'r Coleg o dan drwydded *Creative Commons* e.e. [CC BY-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/) oni bai y ceir amgylchiadau arbennig, ac y cytunwyd yn ysgrifenedig ar yr amgylchiadau arbennig hynny gan y Coleg cyn dyfarnu'r grant. Gellir cysylltu â Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg (Mari Fflur m.fflur@colegcymraeg.ac.uk) os am wybodaeth bellach ynglŷn â chanllawiau cyhoeddi'r Coleg
17. Bydd angen cyflwyno adroddiad byr yn nodi cynnyrch y prosiect, ynghyd â manyleb ariannol lawn a gymeradwywyd gan swyddfa gyllid y sefydliad, yn dilyn cwblhau'r prosiect. Yn unol â threfn prosiectau'r Coleg, bydd y Coleg yn ad hawlio unrhyw danwariant.

Ymholiadau Pellach

18. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ar e-bost at Rhian A. Davies rh.davies@colegcymraeg.ac.uk yn y lle cyntaf.



Atodiad A: Ffurflen Gynnig

Manylion	
Pwnc / Disgyblaeth Academaidd / Cynllun Datblygu :	
Teitl Arfaethedig y Prosiect:	
Rheolwr y Prosiect Arfaethedig:	
Cyfeiriad E-bost:	
Rhif ffôn cyswllt:	
Sefydliad:	
Dyddiad cychwyn:	
Dyddiad gorffen:	
Cyfanswm Grant:	

Y Prosiect Arfaethedig

Amlinellwch yn gryno (heb fod yn hwy na 500 gair) natur y prosiect arfaethedig.

--

Personél

Nodwch yr unigolion fydd yn gweithio ar y prosiect, gan gynnwys diffinio'n glir un person a fydd yn gweithredu fel Rheolwr y Prosiect. Dylech gyfeirio yma at unrhyw brofiad perthnasol o reoli prosiectau. Dylech hefyd nodi os yw'n fwiad i gydweithio â sefydliadau eraill wrth gyflawni'r prosiect.

--

Cyllideb

Amlinellwch gyllideb arfaethedig y prosiect hyd at uchafswm o £5,000 Dylid adnabod cyfanswm yr arian yr ymgeisir amdano, a darparu manylion am y gwariant yn eglur dan brif benawdau. Gofynnir i chi sicrhau fod y manylion ariannol a amlinellir yn realistig. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i bennu maint y grant a ddyrennir i bob prosiect mewn dull sy'n sicrhau cysondeb yn y lefel o gefnogaeth a roddir i brosiectau unigol.

--

Amserlen

Nodwch yn fras amserlen y prosiect gan nodi hyd y prosiect, a chamau cynnydd y prosiect, lle bo hynny'n briodol.

--

--

Risg

Nodwch unrhyw elfen o risg rydych wedi ei adnabod i lwyddiant y prosiect gan amlinellu eich ymateb i'r risg.

--

Cyflawniadau'r Prosiect.

Nodwch yn gryno ganlyniadau'r prosiect, gan nodi'r hyn a fydd wedi ei gynhyrchu a / neu ei gyflawni drwy dderbyn cyllid. Dylid sicrhau fod y cyflawniadau a nodir yn eglur, ac yn fesuradwy.

--

Llofnod Cynrychiolydd Sefydliadol

Enw	
Teitl Swydd	
Llofnod	
Dyddiad	